PAPUR BRO GENAU'R-GLYN, MELINDWR, TIRYMYNACH, TREFEURIG A'R BORTH

# y tincer

PRIS 75c | Rhif 422 | Hydref 2019



**Derbyn gradd** t.8



**Noson i'w chofio** t.14



**Diwrnod Agored** t.11


# Rhedwyr o fri




Llongyfarchiadau i Rob a Stephen Pugh, Maes Ceiro, Bow Street ar redeg Hanner Marathon Caerdydd - roeddynt yn rhedeg i godi arian er cof am Felicity i gronfa Eve – gynacoleg cancr a llwyddwyd i godi tua £1,000. Hoffai'r ddau ddiolch i bawb am eu cefnogaeth a'u cyfraniadau.




Tair o Benrhyn-coch - Elin Haf, Meganne Tooze a Sioned Wyn Jones fu'n rhedeg hanner marathon Caerdydd.



Melindwr Lady Olwen – gweler t. 11



Dr Clive Williams gydag Elsie Morgan ac un o'r modelau yn yr arddangosfa Byd Bychan - gweler t.9

# y tincer

**Sefydlwyd Medi 1977**
**Aelod o Fforwm Papurau Bro Ceredigion**

**ISSN 0963-925X**



**GOLYGYDD – Ceris Gruffudd**
Rhos Helyg, 23 Maesyrefail, Penrhyn-coch
☎ 828017 | YTincer@googlemail.com
**TEIPYDD – Iona Bailey**
**CYSODYDD – Elgan Griffiths** ☎ 627916
**GADEIRYDD Y TINCER – Richard Owen**
31 Glan Ceulan, Penrhyn-coch ☎ 820168
**IS-GADEIRYDD A THREFNYDD CYFEILLION – Bethan Bebb**
Penpistyll, Cwmbrwyno, Goginan ☎ 880228
**YSGRIFENNYDD – Iona Davies**, Maencrannog, Capel Bangor, Aberystwyth, SY23 3LU
☎ 07814659661
ionadavies752@btinternet.com
**TRYSORYDD – Hedydd Cunningham**
Tyddyn-Pen-y-Gaer, Llandre, Aberystwyth
☎ 820652 hedyddcunningham@live.co.uk
**HYSBYSEBION – Cysyllter â'r Trysorydd**
**TASG Y TINCER – Anwen Pierce**
3 Brynmeillion, Bow Street, SY24 5BP
**TREFNYDD GWERTHIANT – Lila Piette**
Llys Hedd, Bow Street ☎ 820223

**TINCER TRWY'R POST – Edryd ac Euros Evans**, 33 Maes Afallen Bow Street

**ABER-FFRWD A CHWMRHEIDOL**
**Mrs Beti Daniel**
Glyn Rheidol ☎ 880 691
**Y BORTH – Grace Bailey**, Pencarreg, Stryd Fawr, Y Borth ☎ 871462
**BOW STREET**
**Mrs Mair Lewis**, 40 Maes Ceiro ☎ 828 102
**Lynn Phillips**, 1 Cae'r Odyn ☎ 820 908
**Anwen Pierce**, 3 Bryn Meillion ☎ 828 337
**Maria Owen**, Gerddi Gleision ☎ 822074
**CAPEL BANGOR / PEN-LLWYN**
**CAPEL MADOG, CEFN-LLWYD A CAPEL DEWI**
**Eirian Hughes**, Lluest Fach ☎ 880 335
**Elwyna Davies**, Tyncwm ☎ 880 275
**Dei Evans**, Fferm Fronfraith, Comins-coch
☎ 623 660
**DÔL-Y-BONT**
**Mrs Llinos Evans** – Dôlwerdd ☎ 871 615
**DOLAU**
**Mrs Margaret Rees** – Seintwar ☎ 828 309
**GOGINAN**
**Mrs Bethan Bebb**
Penpistyll, Cwmbrwyno ☎ 880 228
**LLANDRE**
**Mrs Nans Morgan**
Dolgwiail, Llandre ☎ 828 487
**PENRHYN-COCH**
**Mairwen Jones** – 7 Tan-y-berth ☎ 820 642
**TREFEURIG**
**Mrs Edwina Davies**
Darren Villa, Pen-bont Rhydybeddau ☎ 828 296


# dyddiadur

**Rhifyn Tachwedd** Deunydd i law: Tachwedd 8 Dyddiad cyhoeddi: Tachwedd 20

**HYDREF 16** Nos Fercher Cymdeithas y Penrhyn Noson yng nghwmni Dr Rhiannon Ifans yn festri Horeb am 7.30.

**HYDREF 18** Nos Wener 'Cynan, Carlo a'r Cwîn', darlith gan yr Athro Gerwyn Wiliams Cymdeithas Lenyddol y Garn yn Festri'r Garn am 7.30; cefnogir gan Lenyddiaeth Cymru.

**HYDREF 19** Dydd Sadwrn Diwrnod Agored a lansio llwybr beiciau newydd ym Mwlch Nantyrarian rhwng 11.00 a 3.00, a bydd y seremoni agoriadol am 11:30 am. Gweler t.

**HYDREF 19** Nos Sadwrn Cyngerdd gyda Chôr Godre'r Aran, Gwawr Edwards, Thomas Mathias a Chôr Ysgol Gymraeg Aberystwyth yn Eglwys Llanbadarn am 7.30Trefnir gan Bwyllgor Apêl Aberystwyth Eisteddfod 2020

**HYDREF 21** Nos Lun Lawnsio llyfr The making of Ynyslas (John Mason) Word after Word Press yn Cletwr rhwng 7.30-9.00

**HYDREF 21-22** Nosweithiau Llun a Mawrth Theatr Genedlaethol Cymru yn cyflwyno Y Cylch Sialc (Brecht) yn Theatr y Werin am 7.30

**HYDREF 23** Nos Fercher 9Bach yn Theatr y Werin am 7.30

**HYDREF 27** Nos Sadwrn Cofiwch droi y cloc awr yn ôl

**HYDREF 27** Pnawn Sul Parti calan gaeaf Cylch Meithrin Pen-llwyn yn Neuadd Pen-llwyn, Capel Bangor rhwng 4-6.00. Cystadleuaeth gwisg ffansi; tatoos brawychus; cystadleuaeth cerfio pwmpen; stondin poteli a thwba lwcus. Plant £3.00 yn cynnwys ci poeth, cacen a diod. Oedolion: £3 yn cynnwys paned a chacen. Yr elw tuag at Gylch Meithrin Pen-llwyn.

**TACHWEDD 2** Pnawn Sadwrn. Sgwrs yn Saesneg gan Ioan Lord 'Rich mountains of lead: mining for metals in mid-Wales and its advancing research yn Drwm, LLGC am 2.30.

**TACHWEDD 2** Nos Sadwrn Teilwng yw'r Oen 2019 yn y Neuadd Fawr am 8.00 Trefnir er budd Pwyllgor Apêl Aberystwyth Eisteddfod 2020

**TACHWEDD 6** Nos Fercher "Heriwr Anhepgor, Alwyn D. Rees (1911–1974): Brwydrau iaith a Phrifysgol hanner canrif yn ôl". Darlith ail agor Pantycelyn gan Yr Athro M. Wynn Thomas yn Neuadd yr Hen Goleg am 6.00

**TACHWEDD 12** Nos Fawrth Cwmni Theatr Bara Caws yn cyflwyno Lleu Llaw Gyffes (Aled Jones Williams) gyda Carwyn Jones, Sion Pritchard a Dyfan Roberts yn Theatr y Werin am 7.30

**TACHWEDD 15** Nos Wener Syrcas Cimera yn cyflwyno Drudwen. Perfformiad Cymraeg a Saesneg yn Theatr y Werin am 10.00 a 7.00

**TACHWEDD 23** Nos Sadwrn Noson Cwrw a Gin, gyda Backtrax yn perfformio yn Neuadd y Penrhyn. Noson codi arian PATRASA.

**RHAGFYR 8** Nos Sul Cyngerdd Dathlu'r Deg Adran Aberystwyth ym Morlan am 6.30


Cyhoeddir y Tincer yn fisol o Fedi i Mehefin gan Bwyllgor y Tincer. Argreffir gan y Lolfa, Tal-y-bont. Nid yw'r Pwyllgor o angenrheidrwydd yn cytuno ag unrhyw farn a fynegir yn y papur hwn. Dylid cyfeirio unrhyw newyddion i'ch gohebydd lleol neu i'r Golygydd, ac unrhyw lythyr neu ddatganiad i'r wasg i'r Golygydd.

Y mae pawb sy'n ymwneud â'r Tincer yn gwneud hynny'n wirfoddol ac yn ddi-dâl er budd y gymuned leol. Nhw fel unigolion sy'n derbyn pob risg a chyfrifoldeb (cyfreithiol ac fel arall) gan dderbyn mai ar y telerau hynny y maent yn cyfrannu at y papur a'i ddosbarthiad.


**Cydymdeimlad**
Estynnwn ein cydymdeimlad diffuant â Elgan – cysodydd y Tincer a'i wraig Mared Llwyd, ar farwolaeth sydyn Mei Llwyd– brawd Mared. Roedd Mei ar staff y Llyfrgell Genedlaethol ac yn wyneb cyfarwydd yn y dref a Chlwb Pêl-droed Aberystwyth.


Cysyllter â'r trysorydd os am hysbysebu
**hedyddcunningham@live.co.uk**

## CYFEILLION Y TINCER

Dyma fanylion enillwyr Cyfeillion y Tincer mis Medi 2019

**£25** (Rhif 107 ) John Hughes, Pen-cwm
**£15** (Rhif 91) Lila Piette, Llys Hedd. Bow Street
**£10** (Rhif 39) Dion Ellis Clark, Rock Villa, Y Borth

Fe dynnwyd y rhifau buddugol gan aelodau o'r pwyllgor yn festri Horeb, Penrhyn-coch yn y Cyfarfod Blynyddol ar y nawfed o Fedi

**Rhoddion**

Cydnabyddir yn ddiolchgar y rhoddion isod. Croesewir pob cyfraniad boed gan unigolyn, gymdeithas neu gyngor.

Elenid Thomas, Penrhyn-coch **£3.00**
Di-enw **£10.00**

**Annwyl Olygydd**

Rwy'n ymchwilio i gasgliad llythyrau'r Capten Dafydd Jones, Wern Isa, Llanio, Llanddewibrefi, a fu farw yn ystod Brwydr Coed Mametz, 1916. Roedd Lilian a Dafydd yn ffrindiau coleg yn Aberystwyth.

Tybed a fyddai gan rai o'ch darllenwyr wybodaeth am Lilian wedi'r rhyfel? Mae'n bosib iddi hi neu ei theulu gartrefu yn ardal Aberystwyth. Ei henw llawn oedd Ann Lilian Howell, yn byw gyda'i rhieni yn Aberaeron. Roedd hi'n ferch i Benjamin Evans Howell Council Surveyor (1859-tua 1912), a Jane Howell (1861-1917).

Roedd ei thad yn frawd i'r Cynghorydd John M. Howell, a oedd yn byw gyda'i wraig Ann yn Portland House, Aberaeron, ac roedd ganddynt ddau o blant, Mary Nesta a Geraint Morgan. Erbyn y llythyr olaf yn y casgliad (1917), roedd Lilian wedi ei phenodi'n athrawes yn Ysgol Alexandra Road yn Aberystwyth ac roedd hi'n lletya yn Highbury, Queens Road. Mae'n bosib iddi fyw mor ddiweddar â'r 1980au. Buaswn yn ddiolchgar am unrhyw wybodaeth.

Yn gywir

**Ifor ap Glyn**
Gwelfor, Ffordd Cwstennin, Caernarfon
Ifor.ap.glyn@cwmnida.tv

## 30 MLYNEDD YN ÔL



**Enillwyr Sioe Rhydypennau Llun: Anthony Pugh (o Dincer Hydref 1989)**

Cafwyd ymateb i lun mis Medi - Joanna Lewis sydd ar y chwith a Sara Lathwood ar y dde. Dyma'r enwau yn llawn felly Joanna Lewis, Rhian Haf, Meinir Davies, Nia Williams (Brenhines 1989), Holly Meachan (Brenhines 1988) Zoe Morris, Sara Lathwood.
Blaen: Gareth Lathwood a Kristian Marshall

# Prifysgol Aberystwyth yn dathlu Diwrnod y Sylfaenwyr

Bu staff, myfyrwyr, cyn-fyfyrwyr ac aelodau o'r gymuned leol yn brasgamu drwy'r elfennau ar hyd promenâd Aberystwyth heddiw, ddydd Gwener 11 Hydref 2019, fel rhan o ddathliadau blynyddol Diwrnod y Sylfaenwyr y Brifysgol.

Dan arweiniad yr Is-Ganghellor yr Athro Elizabeth Treasure, cynhaliodd y cerddwyr eofn draddodiad hir-sefydlog Aberystwyth a 'chicio'r bar' y tu allan i Neuadd Alexandra, y neuadd breswyl gyntaf i fenywod yn y DU, cyn dychwelyd yn ôl i'r Hen Goleg am frecwast.

Bellach mae dathliad Diwrnod y Sylfaenwyr yn rhan o galendr blynyddol y Brifysgol, ac yn nodi'r diwrnod pan yr agorwyd ei drysau am y tro cyntaf yn Hydref 1872.

Y siaradwr gwadd eleni oedd Bryn Jones y Borth. Derbyniodd Bryn Radd Baglor er Anrhydedd gan y Brifysgol yn 2015 am ei waith diflino yn y gymuned ac yn benodol am ei weledigaeth gyda Fforwm Gymunedol Penparcau.



# Y BORTH

**Llongyfarchiadau**

... i Rhys Hedd, gynt o 5 Ffordd Clarach, ar basio i fod yn ddyn tân gyda Brigâd Dân Llundain ym mis Gorffennaf. Yn dilyn blwyddyn hir y broses ddethol, cychwynnodd Rhys ar dri mis o hyfforddiant dwys mewn nifer o ganolfannau yn ardal Llundain ganol fis Ebrill diwethaf. Ar y 12fed Gorffennaf cynhaliwyd diwrnod Pasio Allan yn Harrow pryd y cyflwynwyd tystysgrifau i'r criw oedd ar y cwrs. Cafodd wybod bryd hynny mai yng Ngorsaf Gogledd Kensington y byddai'n cael ei leoli ar gyfer ei gyfnod prawf a hynny ar y 'Red Watch'. Mae'n orsaf brysur iawn sy'n derbyn tua 2,500 o alwadau brys y flwyddyn - ac wedi ei lleoli rhwng carchar Wormwood Scrubs a Phalas Buckingham! Mae hefyd yn falch iawn i ddweud ei fod yn ddyn tân go iawn erbyn hyn - gan i'r criw achub cath oedd wedi cwympo rhwng dau adeilad yr wythnos diwethaf.

... hefyd i'w chwaer Mared Emyr ar ennill Diploma Addysgu Offerynnol yr ABRSM gyda Rhagoriaeth yn dilyn arholiad ddechrau'r haf. Mae wedi cael haf llwyddiannus dros ben yn ennill yr Unawd Telyn dros 19 yn yr Eisteddfod Genedlaethol, ac hefyd Wobr Mansel Thomas am berfformiad unawdol o'i waith a Chystadleuaeth Gwobr McGrenery am Gerddoriaeth Siambr am ei pherfformiad gyda'i thriawd telyn, ffliwt a fiola yn y Coleg Cerdd Brenhinol yng Nghaerdydd.



DAC Paul Jennings a Rhys

**Sgwrs a Lansio Llyfr *The Making of Ynyslas***

Bydd John S Mason, MPhil, daearegwr lleol yn cyflwyno ei lyfr diweddaraf, ar Ynys-las, a leolir ger y man lle mae'r brif afon, sef Afon Dyfi, yn cyfarfod â'i llednant, Afon Leri. Pan oedd yn blentyn, ysbrydolwyd John gan ei rieni a'i dad-cu a'i fam-gu; gan ennyn ei chwilfrydedd am bopeth gwyllt, yn arbennig ffosiliau, bywyd gwyllt, y tywydd a'r hinsawdd. Mae wedi cerdded, pysgota môr, tynnu ffotograffau o dirluniau, bywyd gwyllt a'r tywydd o gwmpas Ynys-las ers blynyddoedd lawer. Croeso i bawb. Nos Lun 21 Hydref am 7.30 yn Cletwr.



**Dydd Gwener Medi 27ain gwnaethpwyd cyflwyniad i Pamela a Charles Gough i ddiolch iddynt am bymtheng mlynedd o wirfoddoli yn siop yr RNLI yn y Borth.**
**Yn y llun gwelir Pauline Bentley (gwirfoddolwr yn y siop), Roy Evans (Rheolwr y siop), Ron Davies (Rheolwr Gweithrediadau), a Pamela gyda Charles yn y blaen. Hoffai y criw, y rhai sy'n codi arian a gwirfoddolwyr y siop yrru eu diolchiadau i Pamela a Charles am bymtheng mlynedd o wasanaeth ymroddgar a'r cyfraniad wnaethant i achub bywydau ar y môr yn y Borth.**

# DOL-Y-BONT

**Newid aelwyd**

Dymunwn yn dda i Mirja a Tudor Wynn Williams sydd yn symud i fyw o Brynelmen i Waunfawr, Aberystwyth. Gobeithio y byddwch yn hapus iawn yn eich cartref newydd.

**Annwyl olygydd,**

Neges sydd gennym ar gyfer y beirdd ymysg eich darllenwyr. Yr ydym (Cyhoeddiadau'r Stamp) yn bwriadu rhoi blodeugerdd o farddoniaeth at ei gilydd yn 2020, fydd yn cynrychioli yr ystod eang o farddoniaeth sy'n cael ei hysgrifennu trwy gyfrwng y Gymraeg ar y foment hon. Mae hon yn fenter gyffrous, a fydd yn cynnwys gwaith gan brifeirdd a beirdd gwlad fel ei gilydd, beirdd ifanc ac aeddfed, beirdd gyda phentwr o gyfrolau i'w henw, a beirdd sy'n cyhoeddi am y tro cyntaf un.

Rydym yn fenter gyhoeddi annibynnol, yn debyg iawn i'r papurau bro. Nid ydym yn derbyn nawdd nac arian cyhoeddus, ond mae ein llyfrau a'n cyfrolau i'w cael mewn siopau Cymraeg ar draws y wlad. Bydd y gyfrol hon felly yn cael ei hariannu gan yr elw o werthiant cyfrolau blaenorol, a thrwy ragarchebion.

Ein gobaith yw derbyn gwaith gan ystod mor eang a phosib o gyfranwyr, felly dyma wahodd eich darllenwyr i gyflwyno 1-3 o gerddi ar gyfer cael eu cynnwys yn y gyfrol. Gofynnwn eu bod yn gyrru unrhyw gerddi i'w hystyried atom erbyn Rhagfyr y 31ain, 2019, a byddwn yn ymateb gyda phenderfyniad golygyddol yn y flwyddyn newydd (erbyn mis Chwefror).

Mae mwy o wybodaeth i'w chael o'n gwefan (ystamp.cymru) neu trwy gysylltu'n uniongyrchol. Yr ebost ydi blodeugerdd2020.ystamp@gmail.com, neu i rai sydd well ganddyn nhw roi gwaith i'r dyn post: Y Stamp, Boderwyddon, Carmel, Caernarfon, Gwynedd, LL54 7AN.

Buasem yn ddiolchgar ofnadwy petai chi'n rhannu'r neges hon gyda'ch darllenwyr.

Diolch o galon
**GRUG MUSE**, ar ran Cyhoeddiadau'r Stamp.

# Cyngor Cymuned Trefeurig

Cyfarfu'r Cyngor nos Fawrth 17 Medi yn Neuadd y Penrhyn, Penrhyn-coch gyda'r Cadeirydd Delyth James yn y gadair, a'r cynghorwyr Edwina Davies, Shân James, Richard Owen, Gwenan Price, Dai Mason ac Eirian Reynolds yn bresennol ynghyd â'r Clerc. Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Iona Davies a Mel Evans. Roedd dau aelod o'r cyhoedd hefyd yn bresennol, sef Mr A James a Mrs M James, Penyberth Isaf.

Materion yn codi: Maes Seilo – adroddodd y Cyng. Dai Mason fod y tenant wedi clirio'r garej yr oedd yn ei rentu ar y tir y tu ôl i Faes Seilo yn dilyn derbyn rhybudd gan y Cyngor Sir. Maes y Rhosyn – roedd y caban a fu ar y ffordd ger Maes y Rhosyn wedi ei symud. Glanceulan – roedd giât wedi ei gosod ar geg y llwybr drwy'r parc lle'r oedd yn dod allan i Glanceulan, a chroesawyd hyn yn fawr gan y Cyngor. Roedd hi'n bwysig sicrhau ei bod yn cau ohoni'i hun bob amser. Meinciau – dywedodd y Clerc y byddai'n trefnu fod Aled Jones yn cwrdd ag un o aelodau'r Cyngor i gadarnhau lleoliad y meinciau newydd y bwriedid eu cael uwchben y Cwrt ac wrth Pen-gaer. Y Gofeb – roedd Howard Evans wedi gwneud gwaith cynnal a chadw ar y gofeb, a phenderfynwyd anfon llythyr i ddiolch iddo. Tai gwag ger groeslon Gogerddan – roedd ebost wedi dod oddi wrth Andrea James, Pennaeth Adran Ystadau y Brifysgol, yn dweud fod y tai wedi eu prisio ac y byddent yn mynd ar werth yn y dyfodol.

Cynllunio: Cais A190591, codi annedd ym Mhenyberth Isaf. Cafwyd trafodaeth drwyadl ar y cais. Nid oedd gan y Cyngor wrthwynebiad mewn egwyddor, ond gan ei fod yn gais oedd yn dod o dan y nodyn cynllunio TAN 6, yn ymwneud ag anheddau amaethyddol ymysg materion eraill, roedd y Cyngor yn sylweddoli y byddai'r Cyngor Sir yn gorfod ystyried y cynllun busnes oedd ynghlwm â'r cais, a phenderfynu ar sail hynny.

Adroddiadau am gyfarfodydd a digwyddiadau: adroddodd Gwenan Price am y te mefus llwyddiannus a gaed yng Nghartref Tregerddan, ac adroddodd Dai Mason am Rali Bae Ceredigion a oedd wedi digwydd yn yr ardal ac wedi bod yn llwyddiant mawr.

Unrhyw faterion eraill: addawodd Eirian Reynolds y byddai'n prynu baner newydd ar gyfer y polyn; roedd cwymp wedi bod yn y cwlfert yng Nghwmerfyn, ac roedd y Cyngor Sir yn delio â'r mater; adroddodd Edwina Davies fod nifer o dyllau yn y ffordd ym Mancydarren, a bod y ffordd yn gostwng rhwng Lôn Llwyn a phentref Cwmerfyn.

Cofiwch gefnogi eich busnesau lleol

GWASANAETH TEIPIO
GWAITH PRYDLON A CHYWIR
PRISIAU CYSTADLEUOL
PROSESYDD GEIRIAU
PRINTYDD LLIW
IONA BAILEY
PEN-Y-BRYN
SWYDDFFYNNON
YSTRAD MEURIG
01974 831580

GWASANAETH CYFIEITHU
Linda Griffiths
Maesmeurig
Pen-bont
Rhydybeddau
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 3EZ

01970 828454
linda.griffiths01@btinternet.com



# Colofn BEN LAKE AS

Oes rhai ohonoch yn cofio teithio ar y trên rhwng Aberystwyth a Chaerfyrddin cyn i'r llinell gau i deithwyr yn 1965? Pe baech chi am wneud y siwrne trên heddiw, byddai angen i chi adael Cymru, teithio trwy'r Amwythig, lawr i Gasnewydd a Chaerdydd cyn dod yn ôl tua'r gorllewin i Gaerfyrddin – siwrne 7 awr o hyd ar gyfartaledd! Ond tybed a ddaw yna gyfle i deithio eto ar hyd yr hen linell - trwy Dregaron, Llambed, Llandysul ac ymlaen i Gaerfyrddin?

Dan arweiniad ymgyrchwyr brwd Traws Link Cymru, mae'r weledigaeth o ailagor y llinell rheilffordd yn un sydd wedi cael cryn dipyn o sylw ym Mae Caerdydd ac yn San Steffan dros y misoedd diwethaf.

Mae'r cyfrifoldeb dros gaffael a rheoli masnachfraint rheilffyrdd Cymru wedi cael ei ddatganoli ac mae gan Lywodraeth Cymru rhywfaint o bwerau i fuddsoddi yn y rheilffyrdd. Fodd bynnag, yn wahanol i'r Alban, Network Rail yw perchennog yr asedau yng Nghymru a Lloegr a Llywodraeth y DU sy'n gyfrifol am seilwaith y rheilffyrdd a nhw sy'n penderfynu faint o arian ddylai gael ei fuddsoddi yn ein rheilffyrdd.

Nid yw'n syndod bod datganoli'r cyfrifoldeb am isadeiledd rheilffordd i Gymru yn cael cefnogaeth trawsbleidiol yn y Senedd yng Nghaerdydd. Mae yna danfuddsoddi dybryd wedi bod yng Nghymru ers degawdau. Mae ystadegau'n dangos mai dim ond 1% o'r arian sydd ar gael i wella rhwydwaith Prydain sy'n cael ei wario yng Nghymru, er fod 11% o'r rheilffyrdd yma.

Cyhoeddwyd Astudiaeth Ddichonoldeb yn ddiweddar oedd yn edrych ar gostau, ymarferoldeb a heriau technegol ailagor y llinell rheilffordd rhwng Aberystwyth i Gaerfyrddin. Mae'n wir dweud bod yr adroddiad yn nodi'r heriau amgylcheddol, economaidd ac ymarferol fyddai angen eu goresgyn er mwyn ailagor y linell, ond mae'r adroddiad hefyd yn nodi ei bod hi'n gwbl bosib i wireddu'r prosiect, a hynny ar gost o £750 miliwn. Ydy, mae hynny'n swm mawr o arian, ond o'i gymharu â'r £150bn sy'n cael ei wario ar brosiectau isadeiledd rheilffordd mawr yn Lloegr ar hyn o bryd, dwi ddim o'r farn ei fod yn afresymol nac yn ormodol.

Mis ddiwethaf cyhoeddodd Llywodraeth Cymru adroddiad yn amlinellu cynlluniau i gael pwerau dros isadeiledd rheilffordd wedi'i ddatganoli i Gymru – rhywbeth mae Plaid Cymru wedi bod yn galw amdano ers amser maith. Am y tro cyntaf, mae Llywodraeth Cymru wedi cydnabod yn gyhoeddus yr angen am goridor rheilffordd o'r gogledd i'r de, ac elfen allweddol ohoni yw'r llinell Aberystwyth i Gaerfyrddin sydd wedi bod yn ganolbwynt i ymgyrch Traws Link Cymru.

Mae'r cyfrifoldeb bellach ar Lywodraeth Cymru i gydnabod bod ailagor y rheilffordd hon yn flaenoriaeth drafnidiaeth i Gymru, ac i geisio cyllid gan San Steffan i gyflawni'r prosiect.

# LLANDRE

**Genedigaeth**

Llongyfarchiadau i Shauna a Joe, Lôn Glanfred, ar enedigaeth Archie James Spencer-Bradley ar Fedi 4ydd.

**Pwyllgor Lleol Llandre a Dôl-y-bont Eisteddfod Genedlaethol Cymru Ceredigion 2020**

Pan gyfarfu'r Pwyllgor Apêl Lleol ddechrau'r flwyddyn roedd y nod ariannol a roddwyd i ni bron wedi'i gyrraedd wrth i'r cyfraniadau o dŷ i dŷ ddod i fewn. Serch hynny, roedd ymdeimlad nad oedd gweithgareddau cymdeithasol amrywiol wedi digwydd hyd yma i godi sgwrs a gwên wedi gwaddol yr Eisteddfod. Hyn felly oedd cefndir yr Ŵyl Fabsant a'r rheswm pam fod tipyn o gyffro o gwmpas Llandre yn ystod wythnos olaf mis Medi wrth i'r trefniadau funud olaf gael eu cwblhau.

Yn Nhafarn Rhydypennau ar nos Wener wlypa'r flwyddyn daeth nifer dda o'r trigolion i fwynhau pryd o fwyd a STOMP gyda'r Stompfeistr, Arwel 'Pod' Roberts yn cyrraedd yn arwrol drwy llifogydd y Ddyfi. Roedd gan Pod dipyn o waith cadw trefn ar ein beirdd – Huw Meirion Edwards, Emyr Lewis, Geraint Williams, Dafydd John Pritchard, Gwenallt Ifan, Phil Thomas, Matthew Clubb, Huw Ceiriog ac Anwen Pierce. Ond er cystadlu brwd y cerddi llon a lleddf, ac ymdrech Emyr Lewis i rapio, Geraint Williams, enillydd y STOMP gyntaf a gynhaliwyd ddegawd yn ôl, oedd yn fuddugol gyda'i gerdd am ddodrefnyn arbennig newydd Y Berllan.

Doedd tywydd bnawn Sadwrn ddim yn argoeli'n dda ond fe gadwodd y glaw draw a chychwynodd dros ugain ohonom o'r Parc yng nghanol y pentref ar daith gerdded o gwmpas y ardal dan arweiniad Penri James. Paratowyd taflenni gwybodaeth a map o'r daith gan Penri a threfnodd Menna Edwards Helfa Natur a gwobrau i'r plant. Aethpwyd â ni dros gaeau Taigwynion a Chaer Pwll Glas a chafwyd storïau am awyrennau Almaenig yn gollwng bomiau ar y tir gerllaw yn 1941, a chysylltiadau'r ardal â'r Titanic. Nodwyd ble yn union oedd 'Twll d** y Byd' cyn croesi'r ffordd fawr draw at y Fagwyr.

Ymlaen â ni heibio'r ffermdy gwreiddiol sydd erbyn hyn yn furddun i ganol cae a ran o'r daith lle gwelid tir Ceredigion yn ei holl ogoniant yn agor o'n blaenau. Erbyn hyn roedd pentref Dolau yn agosáu a sgwrs y cerddwyr yn troi at y cymeriadau arferai fyw yn y ffermydd cyfagos – Cynnyll Mawr, Cwm Cae, Felin Gyffin, Llwyn Gywernog, Ty'n Rhos a'r pedwar Bryngwyn.

Llwyddodd y plantos i gwblhau her yr Helfa Natur gyda chymorth yr oedolion ac wedi cyd-gerdded am bedair milltir hamddenol roedd pawb yn barod am luniaeth ysgafn a ddarparwyd ar ein cyfer gan Heulwen a staff Tafarn Rhydypennau. Roedd grŵp iwcalelis Aberystwyth, Yr Iwcadwlis, yn disgwyl amdanom a chan fod nifer y cerddwyr wedi cynyddu yn ystod y daith a chriw pellach wedi dod lawr i'n croesawu'n ôl cafwyd orig arbennig o hwyliog yn cymdeithasu a chanu, diolch i Steff Rees, arweinydd yr Iwcadwlis am drefnu'r taflenni.

I gloi gweithgareddau'r penwythnos cynhaliwyd Cyngerdd yn Eglwys Sant Mihangel. Yn cymryd rhan roedd Côr ABC a Chôr Merched Ger-y-lli, gyda Soffia Nicholas (ffidil) a Heledd Davies (telyn). Mae acwsteg arbennig yn yr Eglwys a mwynhawyd arlwy amrywiol y corau gan bawb, gyda dehongliad Soffia o themâu Schindler's List a sŵn hudol telyn Heledd i gân Elin Fflur, 'Tybed ble mae hi heno?' yn aros yn hir yn y cof.

Arweinwyr y cyngerdd oedd ieuenctid y pentref – Ifan a Nia; Rhys, Llio ac Elain; Rhodri, Elen a Macsen; Glain a Miriam, a Lleucu a Gruff gyda'i sgript wedi'i llunio'n grefftus gan Meinir Wyn Edwards. Trefnwyd paned i bawb ym Methlehem gan rai o'r gangen leol o Ferched y Wawr a'u ffrindiau a daeth nifer dda lawr i'r capel bach i fwynhau'r gwmnïaeth.

Nod y penwythnos oedd i gael hwyl ac i gymdeithasu ac os yn bosib, i ychwanegu at y Gronfa Apêl Leol ac roedd yr ymateb i natur a gwerth y gweithgareddau'n bositif iawn gyda phawb yn cydweithio'n arbennig tuag at lwyddiant y fenter. Pleser felly oedd cael derbyn gohebiaeth gan Richard Evans, ein Trysorydd, fod ein Cronfa erbyn hyn wedi cyrraedd £7,974 yn erbyn targed o £5,000.

Llongyfarchiadau a diolch yn fawr i bawb fu ynghlwm â threfnu penwythnos i'w chofio.










*Trefnwyr Angladdau*

**C T Evans**

Gwasanaeth Angladdol Teuluol Cyflawn, wedi ei arwain yn bersonol gydag urddas. Capel Gorffwys Preifat, Gwasanaeth Dydd a Nos.

**01970 820013**

*gwyn@ct-evans.co.uk*

**Brongenau, Llandre, Aberystwyth SY24 5BS**

# Cyngor Cymuned Melindwr

Cynhaliwyd y cyfarfod ar nos Iau Medi 19 yn Neuadd Pen-llwyn, Capel Bangor. Yn absenoldeb y cadeirydd roedd yr is-gadeirydd yn y gadair. Croesawodd bawb i'r cyfarfod. Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth dau gynghorydd. Derbyniwyd cofnodion mis Gorffennaf fel rhai cywir

Roedd cynrychiolydd o Bentir Pumlumon wedi ei gwahodd i'r pwyllgor. Rhoddodd fraslun o'i gwaith fel Swyddog Datblygu Cymuned a Thwristiaeth a chyfeiriodd at dudalen Facebook Pentir Pumlumon. Cafwyd trafodaeth ddiddorol am yr atyniadau twristiaeth sydd yn yr ardal yn barod a'r posibliadau pellach. Cytunwyd bod twristiaeth o fudd i'r ardal. Gadawodd y pwyllgor yn gobeithio ei bod wedi codi ymwybyddiaeth y cynghorwyr o dwristiaeth.

Roedd sawl mater cynllunio wedi dod i sylw'r Cyngor dros y ddau fis diwethaf.

Mae Cyngor Sir Cerdigion wedi talu ail ran y prasept i'r cyfrif ar ddiwedd mis Gorffennaf, ac mae'r clerc wedi talu yswiriant Cyngor Cymuned Melindwr am y flwyddyn 2019/2020.

Dywedodd y Cynghorydd Sir fod y gwaith mewn llaw i roi arwydd newydd Capel Bangor ar ffordd yr A44 gan fod yr hen un wedi torri. Hefyd soniodd am y diweddaraf ynglŷn â Phont Rhiwarthen.

Mae Cyngor Cymuned Melindwr yn cwrdd ar y trydydd nos Iau o'r mis. Bydd y cyfarfod nesaf nos Iau Hydref 17 am 7.30yh yn Neuadd Pen-llwyn, Capel Bangor.

## CAPEL BANGOR / PEN-LLWYN

**Suliau Capel Pen-llwyn**
**Hydref**
20 5.00 Roger Ellis Humphreys
27 10.00 Wyn Morris

**Tachwedd**
3 5.00 Bugail Cymun
10 10.00 Oedfa'r ofalaeth yn y Garn
17 10.00 Elwyn Pryse
24 10.00 Adrian Williams

**Merched y Wawr Melindwr**
Nos Fawrth aeth tua pymtheg o aelodau draw i Langwyryfon i ymweld â Chaban Betsan Jane. Cawsom groeso cynnes iawn gan Betsan a'i mam Eleri. Derbyniodd Betsan ei haddysg yn Ysgol Penweddig ac yna aeth ymlaen i astudio ffasiwn a thecstiliau ym Mhrifysgol Dewi Sant y Drindod Caerfyrddin. Enillodd wobr Goffa Miriam Briddon a defnyddiodd arian yr Ysgoloriaeth yma i adeiladu Caban ar dir y fferm deuluol yn Llangwyryfon, er mwyn sefydlu ei busnes ei hun yn creu ac yn ail wneud dillad. Mae yn cael llawer o'i hysbrydoliaeth o'r ardal gan gwmpasu nodau clustiau a marciau defaid i mewn i'w gwaith. Pan yn y Coleg cafodd wahoddiad i arddangos ei gwaith adeg wythnos ffasiwn Llundain, profiad arbennig iawn i gynllunydd ifanc.. Cafodd ei dewis i gymryd rhan ar raglen Llanmed gyda Tudur Owen ar S4C. Erbyn hyn mae yn brysur iawn yn ail ffitio dillad priodas ac mi 'roedd gweld ei gwaith cynllunio creadigol yn wledd i'r llygad. Cawsom baned o de a chacennau i ddilyn wedi eu paratoi gan ei mam Eleri. Diolchodd Eirwen McNulty yn gynnes iawn i'r ddwy am noson arbennig a chroesawgar iawn.



Taith Sbridiri Cylch Meithrin Pen-llwyn




Shwmai bawb, a chroeso i golofn ddiweddara Bro360 yn Y Tincer.
Ers i mi sgwennu'r golofn ddwetha, mae llwyth o bethau wedi digwydd - gan gynnwys y newyddion cyffrous bod gwefan BroAber360 yn fyw! Os ewch chi i **broaber360.cymru** byddwch yn gallu darllen, gwylio a gwrando ar y straeon lleol cynta i gael eu creu. Fersiwn sylfaenol ac arbrofol o'r wefan sy'n fyw ar hyn o bryd, ond mae wrthi'n cael ei datblygu drwy'r amser felly cadwch lygad mas am y datblygiadau!

A'r peth gorau? Mae'n bosib i CHI gyfrannu hefyd. Ewch i **broaber360.cymru**, pwyswch y botwm Ymuno a dilynwch y cyfarwyddiadau. Ydych chi'n moyn rhoi sylw i ddigwyddiad, neu eisiau dathlu llwyddiant lleol? Mae'r grym i rannu'r hyn sy'n bwysig yn eich dwylo chi.

Mae amryw o straeon diddorol, aml-gyfrwng ar y wefan hyd yma, o drafferthion traffig i glipiau fideo, sain a chanlyniadau o Steddfod Cwmystwyth. Mae cymaint o amrywiaeth o gyfryngau'n bosib ar wefan, a'n gobaith ni yw dangos prysurdeb bywyd cefen gwlad gogledd Ceredigion ar ei orau.

Dros y wythnosau nesa byddwn yn eich helpu i ddefnyddio'r cyfryngau digidol i greu straeon o'ch digwyddiadau chi ar draws y fro, felly cofiwch gysylltu os oes gennych syniad am stori neu os hoffech gael cymorth. Ac os byddwch yn ein gweld ni o gwmpas, cofiwch alw draw i ddweud shwmai!

Os hoffech sgwrs am botensial y prosiect, cysylltwch â mi ar daniel@bro360.cymru neu 01570 423529.

Hwyl am y tro.
**DAN**

Cysyllter â'r trysorydd os am hysbysebu
**hedyddcunningham@live.co.uk**

# PENRHYN-COCH

**Suliau Horeb**
**Hydref**

20 10.00 a 6.00 Cyfarfodydd pregethu Bethel Aberystwyth Y Parchg Rob Nichols
10.30 Clwb Sul

27 10.30 Clwb Sul – ar y cyd yn Horeb
2.30 Y Parchg Peter Thomas – ym Methel

**Tachwedd**

3 2.30 Y Parchg Peter Thomas Oedfa gymun

10 10.00 Y Parchg Peter Thomas Oedfa deuluol Sul y Cofio

17 10.30 Clwb Sul – Horeb
2.30 Sion Meredith

24 10.30 Clwb Sul – ar y cyd yn Eglwys St Ioan
2.30 Y Parchg Judith Morris ym Methel

**Cinio Cymunedol Penrhyn-coch**
Bydd y Clwb yn cyfarfod yn Neuadd yr Eglwys dyddiau Mercher 23 Hydref, 13 a 27 Tachwedd. Cysylltwch â Job McGauley 820 963 am fwy o fanylion neu i fwcio eich cinio.

**Cyswllt Caerdydd**
Dymuniadau gorau i Sion Wyn Hurford sydd wedi ei benodi yn gyswllt Caerdydd i Asiantaeth Haka. Gellir cysylltu gyda Sion ar sion@hakaentertainment.co.uk

**Cylch Meithrin Trefeurig**
Plant y Cylch wedi gwisgo i fyny mewn coch i gefnogi tîm rygbi Cymru.



**Cymdeithas y Penrhyn**
Braf oedd croesawu dau wyneb cyfarwydd, sef Kate O'Sullivan a Phil Thoma – y Fets – i noson agoriadol Cymdeithas y Penrhyn, eleni.

Rydym eisoes wedi mwynhau dwy gyfres o'r rhaglen boblogaidd ar S4C, lle dilynwn Fets Ystwyth o Lanbadarn wrth iddynt drin anifeiliaid anwes ac anifeiliaid fferm. Daw Phil o Landre a bu'n gweithio mewn amryw o lefydd o'r Alban i Asia cyn dychwelyd i Gymru. Gwyddeles yw Kate, sy'n rhugl yn y Gymraeg a'i hiwmor ffraeth yn heintus. Hi sy'n gwneud y llawdriniaethau cymhleth a chawsom sawl enghraifft ganddi o'r pethe sy'n gallu mynd o chwith. Soniodd y ddau am y broses slic o ffilmio'r rhaglen a'r ffaith nad ydynt yn ymwybodol o'r camerâu. Mae'r rhan fwyaf o griw'r fêts yn siarad Cymraeg a chawn yn y rhaglenni, nid yn unig hanes y fêts a'r anifeiliaid ond stori'r perchnogion hefyd. A'r newyddion da yw bod trydedd gyfres ar y gweill!

**Y Parchedig W. J. Edwards**
Gŵr a thad annwyl i'w deulu
Y Parchedig W.J. oedd i ni
Un o blant Pen-bont Rhydybeddau
A dreuliodd ei fywyd yn pregethu.
Roedd bob amser yn barod ei gymwynas
Ac yn hoff o fynd yn ôl dros hanes.
A cof amdano fydd mor barchus i ni
Ond bellach mae ym mreichiau ei Iesu.

M.J.

Estynnwn ein cydymdeimlad dwys â chi fel teulu.

**Diolch**
Dymuna Gwyneira ac Yvonne Marshall, Brogerddan, ddiolch i bawb o galon am bob gydymdeimlad a dderbyniasant ar golli gŵr a weithiodd i'r Comisiwn Coedwigaeth am flynyddoedd lawer. Ac ar ôl ymddeol fe welwyd Brian wrthi yn gwneud rhyw waith neu gilydd. Nid oedd yn hoff o fod yn segur. Dymuna Gwyneira ac Yvonne ddiolch i bawb hefyd am y rhoddion a dderbyniwyd er cof am Brian.



**Llongyfarchiadau**
Llongyfarchiadau i Anwen Morris, Preseli, ar dderbyn gradd BSc mewn Seicoleg o Brifysgol Hope, Lerpwl. Pob hwyl iddi wrth gychwyn cwrs Meistr mewn Seicoleg Fforensig ym Mhrifysgol Nottingham Trent.
Ymddiheuriadau – ymddangosodd y llun anghywir y mis diwethaf.

Llongyfarchiadau hefyd i'w chwaer Gwenno Morris ar gael ei phenodi i swydd athrawes yn Ysgol y Cwm, Trevelin ym mynyddoedd yr Andes, Patagonia. Mae Ysgol y Cwm yn ysgol ddwyieithog – Cymraeg a Sbaeneg – fydd a 150 o blant yn ei mynychu ar ddechrau y flwyddyn addysgol 2020 (Mawrth – Rhagfyr). Bydd Gwenno yn cychwyn yno ym Mawrth 2020.

**Bore coffi llwyddiannus**
Eto eleni cafwyd bore coffi llwyddiannus yn Neuadd yr Eglwys ar gyfer codi arian i Macmillan. Hoffai Frances Foley a Rhiannon Humphreys ddiolch o galon i bawb a gyfrannodd mewn unrhyw ffordd ar yr achos. Gwnaethpwyd elw o £505 gyda'r sicrwydd y bydd yr arian yn cael ei wario'n lleol.






**Llyr (Pen-banc) a Lowri James briodwyd ym Mont-goch ar Fedi 7fed.**



Mae Cered: Menter Iaith Ceredigion wedi bod yn cydweithio'n agos iawn gyda Brownies Penrhyn-coch dros y flwyddyn ddiwethaf i gynyddu eu defnydd o'r Gymraeg a'u hymwybyddiaeth o bwysigrwydd y Gymraeg. Mae'r cydweithio wedi galluogi y gangen i dderbyn y wobr Is-lywydd Girlguiding Ceredigion sy'n cynrychioli eu hymrwymiad a'u cyfraniad i'r iaith Gymraeg. Cynhaliwyd cyfres o weithgareddau amrywiol i'r aelodau gan gynnwys sesiynau cyfansoddi cân Gymraeg gyda chymorth y gantores ifanc o Geredigion, Mari Mathias.

**Urdd y Gwragedd St Ioan Penrhyn-coch**

Siaradwraig mis Hydref oedd Gwladys Evans o Bont-goch. Cawsom wybod hanes ei menter o greu ei busnes newydd o'r enw Serennu. Dros gyfnod o ryw ddeng mlynedd bellach, mae Gwladys wedi bod yn mynychu dosbarthiadau crochenwaith gyda'r nos yng Nghanolfan y Celfyddydau yn Aberystwyth. Darparwyd arddangosfa o'i cherflunwaith megis llwynogod ac ysgyfarnog a wnâi allan o glai. Eglurodd y camau ar broses o'i gwneud yn ogystal â sut oeddent yn sychu mewn odyn sydd ganddi adref ar dymheredd uchel hyd at 1300°. Dangosodd hefyd sut i ychwanegu sglein ar y gwaith i greu llygaid byw ar yr anifeiliaid, broses hir a chywrain. Yn ychwanegol i'r hyn a soniwyd amdanynt, mae Gwladys yn cynhyrchu gemwaith ag addurniadau Nadolig prydferth allan o borslen. Cawsom gyfle i brynu rhai o'r eitemau ar y noson ac yn falch o glywed ei bod yn derbyn comisiynau ar gyfer anrhegion achlysuron arbennig. Cawn weld mwy o waith Serennu mewn ffeiriau Nadolig lleol yn y dyfodol agos. Braf hefyd oedd cael cwmni Iona ei chwaer a ddaeth i'w chynorthwyo a chafodd y ddwy groeso cynnes fel merched lleol o Gefn-llwyd. Diolchwyd yn fawr iddynt am noson ddifyr dros ben.



**Eglwys Sant Ioan Penrhyn-coch**

Yn Neuadd yr Eglwys ar bryhawn Sadwrn 28 Medi, cynhaliwyd arddangosfa o waith 'Byd Bychan' Dr Clive Williams (nid yr optegydd!) yn ogystal â gwaith Seren Jenkins a enillodd y Fedal Gelf, Dylunio a Thechnoleg yn Eisteddfod yr Urdd Caerdydd a'r Fro eleni. Yn ogystal a hyn roedd yna de prynhawn blasus.

Diolch i Dr Clive Williams a Seren Wyn am arddangos eu gwaith hyfryd, hefyd diolch i bawb a gyfrannodd a chefnogodd y prynhawn i wneud yn un llwyddiannus er gwaethaf y tywydd.

**Bwyd yn y Clwb**

Mae y Clwb ar agor eto am fwyd. Gweinir prydau bar ar nos Wener 6-8 a dydd Sadwrn 1-8; mae hefyd ginio dydd Sul - carferi - rhwng 12 a 2.30. Y pris yn Hydref a Tachwedd yw £8 am unai dau gwrs neu un cwrs a diod. Maent yn danfon prydau i gartrefi yn y pentref.

Awgrymir archebu bwrdd trwy ffonio 01970 828992 ond mae croeso i rai gerdded i mewn hefyd.






**Wrth i'r gwaith dur barhau i symud ymlaen yn dda, dyma lun diweddar o'r awyr sy'n dangos sut y bydd y Campws yn eistedd o fewn Campws Gogerddan a Ffermydd y Brifysgol**



## parhad ... PENRHYN-COCH

**CANLYNIADAU PÊL-DROED**

**Tim 1af Penrhyn-coch**

*Medi*

7 Penrhyn-coch 1 Cegidfa (Guilsfield) 3
10 Penrhyn-coch 1 Corwen 0
14 Penrhyn-coch 3 Gresffordd Athletig 0
21 Y Rhyl 0 Penrhyn-coch 0
28 Penrhyn-coch 2 Bae Colwyn 0

*Hydref*

5 Bwrdeidref Conwy 3 Penrhyn-coch

**Eilyddion Penrhyn-coch**

*Awst*

14 Bont 2 Eilyddion Penrhyn-coch 2
21 Eilyddion Penrhyn-coch 3 Tal-y-bont 3
24 Aberdyfi 3 Eilyddion Penrhyn-coch 2
31 Turfs Tregaron 6 Eilyddion Penrhyn-coch 2

*Medi*

7 Llanilar 5 Eilyddion Penrhyn-coch 0
21 Eilyddion Penrhyn-coch 2 Llanilar 2
28 Padarn yn erbyn Penrhyn-coch. Gohirio

*Hydref*

5 Cwpan Dai Dynamo Eilyddion Penrhyn-coch 4 Eilyddion Aberaeron 0

**Cydymdeimlad**

Cydymdeimlwn â Gwen Griffiths, Brogynin Fach, Alwena, Nia ac Aled ar farwolaeth Idwal Griffiths ar 4 Hydref. Cynhelir gwasanaeth cyhoeddus yn Amlosgfa Aberystwyth dydd Mawrth 15 Hydref am 1.00.



**Llongyfarchiadau mawr i dri o blwyddyn 7 Ysgol Penweddig - Steffan Gillies a Tomos James ( y ddau o Benrhyn-coch) a Steffan Jones (Pontarfynach - canol) oedd yn chwarae eu gêm gyntaf i dîm Pêl-droed Ysgolion Ceredigion ar Hydref 6ed. Cafwyd canlyniad arbennig... y bechgyn yn ennill yn erbyn Sir Benfro 11-1 !!**

**Cofiwch gefnogi eich busnesau lleol**

# Trefi Cymru'n derbyn hwb i gynllunio ar lawr gwlad

Bydd pobl sy'n gweithio ac yn gwirfoddoli mewn trefi a chymunedau ar draws Cymru'n elwa ar adnodd newydd i'w helpu i ddod o hyd i gyfleoedd yn eu hardaloedd.

Gwefan ddwyieithog newydd sy'n cael ei chydlynu gan y Sefydliad Materion Cymreig yw Deall Lleoedd Cymru, sy'n darparu gwybodaeth am economi, cyfansoddiad demograffig a gwasanaethau lleol mwy na 300 o leoedd yng Nghymru a hynny ar ffurf hylaw a hawdd.

Bydd yr ystadegau'n darparu gwybodaeth am ystod eang o bynciau gan gynnwys nifer y lleoedd ysgol, siopau ac elusennau yn yr ardal, cyflogaeth, pellteroedd teithio, hunaniaeth genedlaethol a niferoedd siaradwyr Cymraeg.

Bydd hyn nid yn unig yn caniatáu i bobl â diddordeb yn eu tref ddysgu mwy am eu hardal, ond bydd y wefan hefyd yn helpu cynghorau tref, grwpiau cymunedol, elusennau a llunwyr polisi i greu gwasanaethau sy'n gweddu i gymunedau unigol ar draws Cymru.

Er bod gwefannau data eraill yn cyflwyno gwybodaeth ar lefel awdurdod lleol, mae Deall Lleoedd Cymru'n caniatáu i bobl ddadansoddi ystadegau am bob lle yng Nghymru lle mae mwy na 2,000 o drigolion.

Yn ogystal ag archwilio data am leoedd unigol, gall pobl gymharu trefi a dysgu am berthynas eu lle â chymunedau cyfagos ac eraill ar draws Cymru. Y nod yw annog pobl i greu perthnasau ar draws ffiniau cymunedol, rhannu syniadau a deall yn well y perthnasau sy'n bodoli yn holl drefi eu hardal.

Dywedodd Shane Wetton, Swyddog Cynllunio Cyngor Bwrdeistref Sir Conwy, "Mae hi'n gallu bod yn anodd iawn darganfod ystadegau am drefi felly bydd wefan Deall Lleoedd Cymru yn gwneud gwahaniaeth mawr i'm gwaith. Mae'r gwybodaeth wedi'u gyflwyno mewn ffordd clir ac mae'n ddefnyddiol iawn gallu ymchwilio perthnasau rhwng llefydd gwahanol.

Mae'r wybodaeth demograffeg yn hynod o ddiddorol, yn enwedig y data ar nifer y llefydd ysgol a'r nifer o ddoctoriaid lleol i bob person. Rydw i'n edrych mlaen i fwy o wybodaeth i gael ei ychwanegu drwy gydol y flwyddyn."

Mae Deall Lleoedd Cymru, sy'n cael ei hariannu gan Ymddiriedolaeth Carnegie UK Trust a Llywodraeth Cymru, yn cynnwys cofnodion unigol ar gyfer pob lle yng Nghymru lle mae mwy na 1,000 o drigolion a'r gallu i gymharu lleoedd gyda mwy na 2,000 o drigolion.

Gellir cyrchu'r wefan newydd yn www.dealllleoeddcymru.cymru ac mae fersiwn Saesneg ar gael yn www.understandingwelshplaces.wales.



# GOGINAN

**Atgofion**

Gyda'r sôn ar hyn o bryd am y flwyddyn 1969 a hanes y tywysog Charles yn Aberystwyth daeth i gof Elen Williams, Penrhiwlas, y diwrnod gwnaeth ei thad gwrdd ag ef.

Roedd Elen wedi gweld tri cheffyl wedi eu clymu a thri pherson yn cael lluniaeth ger giât y ffordd, aeth yn ôl i'r tŷ a dweud wrth ei thad. Pan aeth ei thad allan roedd yna gar mawr du wedi cyrraedd ac o'r car daeth dau Gymro i fyny at Mr.Williams a gofyn iddo a oedd yn sylweddoli pwy oedd un o'r marchogion a gofyn iddo a fyddai yn hoffi ei gwrdd ac yng ngeiriau Elen " Tynnodd Dada ei gap wrth ysgwyd llaw gyda'r tywysog". Mae'n debyg i'r marchogion adael Penrhiwlas ac fe gymerwyd llwybr anghywir lawr i Gwmrheidol a bod y ddau warchodwr yn y car yn go ofidus a diymadferth sut byddai y ffordd orau i gael dod o hyd iddynt.

**Melindwr Lady Olwen**

Braf yw nodi fod yna gaseg gwedd a fagwyd yng Ngoginan wedi dod yn gyntaf mewn cystadleuaeth "Marchog Ceffyl Trwm" yn Sioe Ceffylau y Flwyddyn a gynhaliwyd yn Birmingham dechrau'r mis. Roedd y gaseg Melindwr Lady Olwen wedi cael ei magu gan Idloes Roberts, Penbryn y Barcud.



**Diwrnod Agored Bwlch Nantyrarian**

Byddwch yn un o'r rhai cyntaf i reidio Melindwr - ein llwybr gradd 'glas' newydd, drwy ymuno â ni yn ein diwrnod agored ar ddydd Sadwrn 19 Hydref. Cynhelir y diwrnod agored rhwng 11.00 am a 3.00 pm, a bydd y seremoni agoriadol am 11:30 am.

Mae Melindwr yn llwybr beicio mynydd lefel canolradd. Mae'n 5 cilomedr o hyd ac yn addas i bobl a chanddynt rywfaint o brofiad o feicio mynydd. Dyluniwyd Lllwybr Melindwr i fod yn un 'cynyddol' ar gyfer beicwyr sy'n gymwys ar lwybrau gradd glas, fel y gallant wella'u sgiliau cyn symud ymlaen i'r radd nesaf.

Mae Bwlch Nantyrarian yn le rhagorol ar gyfer beicio mynydd, ond hefyd yn le delfrydol i gerdded a marchogaeth. Bydd y diwrnod agored yn dathlu'r amrywiaeth o wahanol weithgareddau y gallwch eu mwynhau yma, a cheir clybiau chwaraeon wrth law drwy gydol y digwyddiad i roi cyngor ar sut i ymuno.

Bydd cyfle i'r teulu cyfan gael hwyl. Bydd Lady Augusta, pyped anferth Theatr Byd Bychan, yn difyrru pawb gyda pherfformiadau am 12.30 pm a 2.30 pm, gan orffen mewn pryd i bobl fwynhau bwydo'r barcutiaid am 3.00 pm.

Darllenwch y wybodaeth am Lwybr Melindwr ar ein gwefan: www.cyfoethnaturiol.cymru/melindwr

GWE Cambrian WEB
Gwefannau Gwych o Gymru
Creu Gwefannau
Marchnata Digidol
Pecynnau Gofal Gwefan
a llawer mwy!
*Gwasanaeth Gymraeg*
Cysylltwch Heddiw
info@cambrianweb.com
01970 623 906

D J Evans Cyfarwyddwyr Angladdau
Busnes teuluol gyda dros 60 mlynedd o brofiad
Kairali, Penrhyn-coch SY23 3EQ
Gwasanaeth personol, urddasol gyda chydymdeimlad
Gwasanaeth Pedair Awr ar Hugain
evansfunerals@talk21.com
Aberystwyth 01970 615328
Penrhyn-coch 01970 820249
Machynlleth 01654 700006

SIOP SGIDIAU GWDIHW
Shan Jones
8 Ffordd Portland, Aberystwyth SY23 2NL
01970 617092
GWASANAETH GOFAL TRAED
Ceiropodydd /podiatrydd graddedig ac wedi cofrestru efo'r
H.C.P.C., S.R.Ch., M.Ch.S., B.S.C.Pod, Dip.Pod.Med.



newyddion etc. i / news etc. to:
golygydd@trefeurig.org
William Howells, Rhyd-y-gof, Penrhyn-coch, Aberystwyth SY23 3EQ

ANIFEILIAID TEW
eu hangen i'w lladd mewn lladd-dy lleol
Cysylltwch â TEGWYN LEWIS
01970 880627

# ABER-FFRWD A CHWMRHEIDOL



**Cerdded er cof**
Hyfryd oedd darllen am gamp Theo Roberts yn cerdded i godi arian er cof am ei fam-gu Auriel Fenton a fu unwaith yn athrawes yn ysgolion Pen-llwyn a Phenweddig. Mae Theo hefyd yn ŵyr i Sylvia ac yn fab i Meirion a fu yn byw yn Nhŷ Melyn rai blynyddoedd yn ôl. Llongyfarchiadau mawr i ti.

**Urdd y Gymuned**
Dyma lun o daith gerdded Urdd y Gymuned Aber-ffrwd a Chwmrheidol. Cafwyd prynhawn pleserus iawn yn cerdded a chymdeithasu.



Llun: Jackie Willmington

Trilliw y mynydd, ar Fedi 17, uwchben Cwmrheidol (~ SN 705 798). Awgrymodd y gwybodusion ei bod yn anarferol gweld blodau mor hwyr yn y flwyddyn.


SIOP Y PETHE

Llyfrau, Cardiau Cyfarch a Cherddoriaeth a llond llawr o Grefftau ac Anrhegion

01970 617120

Nawr yn cynnig gwasanaeth Cliciwch a Casglwch ar ein gwefan

www.siopypethe.cymru



CIGYDD BOW STREET
01970 828447
Deli
BOW STREET BUTCHERS SHOP

Cigydd a delicatessen o safon arbennig
01970 828447 - Pendre, Bow Street, SY24 5BQ

Casgliad o Enwau Tai Annedd Diflanedig Gogledd Ceredigion

Ffilm gan: **Gwilym Jenkins**




gyda chymorth:
y diweddar **Edgar Humphreys**, Bwlch Styllen
y diweddar **Huw Huws**, Tynrhelyg
y diweddar **Defi Tomos Lloyd**, Penrhiw
y diweddar **Bennett Jenkins**, Cerrigcaranau
**Eurfryn Williams**, Pensarn
**Barbara Jenkins**, Cefngweiriog
**Cledwyn Fychan**, Llanddeiniol
**Elgan Evans**, Pantcoch

**Nos Fercher, 6 Tachwedd 2019**
7:30 yh • Capel Bethel • £5 / plant am ddim

Tuag at Apêl Madagasgar, Undeb yr Annibynwyr
**Croeso cynnes i bawb**

# Cywydd croeso 2020

*Llongyfarchiadau i Anwen Pierce gafodd yr anrhydedd o gyfansoddi cywydd croeso i Eisteddfod 2020. Diolch i'r Eisteddfod am ganiatâd i'w gyhoeddi yma.*

Su o du'r gors ydyw'r gân
ac ias unig ei swnian
undon yn fferru'r gweundir
a'i hochain hallt a'i chŵyn hir
yn oedi. Hen gân ydyw
drwy'r goedwig, anniddig yw.

Oriog yw ein galaru,
rhy rwydd ein dihidrwydd hy.
Daw ugain ugain yn nes,
ugain ugain a'i neges.
Fesul un, ar ein hunion,
troi sy raid at wae'r sir hon.

Ym mro'r ŵyl ymwrolwn
hyd y sir, rhaid cadw sŵn
a throi'r rhod; fe ddaeth awr hon –
awr deg i Geredigion,
a daw o'r gors nodau'r gân
i'n gafael drwy'r sir gyfan.

Os ugain ugain yw'n her,
wynebwn bob un aber
o raid, ym mhob stryd a bro
awn ati, hawliwn eto'n
tir yn ôl; rhaid troi ein ha'n
un i'w gofio ... rhag ofan.

**Anwen Pierce**

Crefftau Pennau
Coffi Boreuol
Byrbrydau Poeth neu Oer
Cinio
Te Prynhawn
Crefftau Ac Anrhegion
Ar agor
Llun-Sadwrn
Brecwast
ar gael
01970 820 050
Pennau

## MADOG, DEWI, CEFN-LLWYD

**Suliau Madog**
**2.00**
**Hydref**
20 Bugail
27

**Tachwedd**
3 J. Tudno Williams
10 Oedfa'r ofalaeth yn y bore yn y Garn
17 Bugail
24 Adrian Williams

**Dyweddïo**
Llongyfarchiadau i Rhys Evans, Fferm y Fronfraith, ar ei ddyweddiad gyda Ceri Haf Roberts o Bryn gwyn, Llanuwchllyn.

**Cydymdeimlad**
Cydymdeimlwn â Dilwyn a Catherine Thomas, Brynheulog, Capel Dewi, wedi i Dilwyn golli ei dad, Mr Cadfryn Thomas o Lanllwni.

Cydymdeimlwn â Meirion a Iona Davies, Trystan a Gwen, Llain Gwyddil, ar farwolaeth tad Meirion – Ieuan Davies o Landdewibrefi yn Ysbyty Bron-glais ar Hydref 6ed.



**Graddio**
Llongyfarchiadau i Lisa Evans, Fferm y Fronfraith ar derbyn gradd dosbarth cyntaf yn Addysg a Gofal Blynyddoedd Cynnar: Ymarferwr proffesiynol or Prifysgol y Drindod Dewi Sant. Ymddiheuriadau – ymddangosodd diawl y wasg yn y rhifyn diwethaf olygodd i lun Lisa fynd o dan Penrhyn-coch gyda manylion arall.

# Deugeinfed Flwyddyn Llyfrau Llafar Cymru

Mae eleni yn flwyddyn nodedig i *Llyfrau Llafar Cymru* gan mai yn 1979 - deugain mlynedd yn ôl y cychwynnodd y Mudiad. Breuddwyd Miss Rhian Evans, Caerfyrddin ydoedd ac fe wireddwyd ei breuddwyd. Trwy ddycnwch a brwdfrydedd egnïol Rhian aeth y Mudiad o nerth i nerth ac erbyn heddiw mae tua 30 o wirfoddolwyr eu recordio darlleniadau o lyfrau Cymraeg a rhai Saesneg sy'n ymwneud â Chymru. Bydd pob recordiad yn cael ei brosesu i ddisgiau digidol a'u danfon at deillion a phobl a nam golwg i'w galluogi i fwynhau'r llyfrau hyn fel eraill ohonom. Danfonir y cyfryw iddynt a'u dychwelyd yn ddi-dâl.

Fel rhan bwysig o ddathlu'r *Deugain Mlynedd,* mae Rhian wrthi'n brysur y dyddiau hyn yn ysgrifennu hanes y fenter arloesol hon a bwriedir yn y dyfodol agos gyhoeddi'r hyn fydd wedi ei baratoi. Byddwn yn hysbysu dyddiad a lleoliad y lansio maes o law.

Mae'r gwasanaeth a gyflawnir gan Llyfrau Llafar Cymru yn dibynnu'n llwyr ar haelioni caredig unigolion, eglwysi a mudiadau yn ogystal â nifer o Gynghorau Sir a Bro ledled Cymru. Gwerthfawrogir yn fawr y rhoddion hyn. Nid ydym yn codi tal am y ddarpariaeth i'n *"gwrandawyr",* ond mae arnom angen arian i gyflogi dau aelod o staff, prynu adnoddau a chyfarpar angenrheidiol a chroesawir unrhyw rodd fach neu fawr. Mae pob cyfraniad a gaswn yn ein galluogi i barhau i wneud bywyd yn fwy pleserus i'r cannoedd sy'n cael eu hamddifadu o ddarllen oherwydd diffyg eu golygon.

Os gwyddoch am aelod o'ch teulu neu am bersonau yn eich ardal fyddai'n dymuno derbyn ein gwasanaeth, cysylltwch â ni a byddwn yn falch iawn i gwrdd â'ch gofyn. Am ragor o wybodaeth neu i dderbyn ein catalog cyfredol, ffoniwch:- *01267-238225* neu danfonwch e-bost :- *lyfraullafarcymru@outlook.com*

# BOW STREET

**Capel y Garn**
**10.00**

**Hydref**
20 Bugail
27 Lyndon Lloyd

**Tachwedd**
3 J. Tudno Williams
10 Bugail Oedfa'r ofalaeth)
17 Bugail (C)
24 Adrian Williams

**Noddfa**
**10.00 oni nodir yn wahanol**
**Hydref**
20 Cyfeillach
27 Mrs Beryl Vaughan

**Tachwedd**
3 Yn y Garn
10 Sul y Cofio
17 Cyfeillach
24 Y Parchg Richard Lewis

**Capel y Garn**
**Swper y Cynhaeaf**
Roedd hi'n noson Swper y Cynhaeaf yn Ysgoldy Bethlehem ar Fedi 13, a'r gegin newydd yn cael ei defnyddio am y tro cyntaf. Braf oedd gweld yr ystafell yn llawn at yr ymylon. Croesawodd y gweinidog, y Parchg Watcyn James, y swperwyr at y byrddau a mawr fu'r mwynhad o fwyta'r wledd flasus oedd wedi ei pharatoi gan Delyth Jones a Dwysli Peleg Williams. Llywyddwyd y noson gan Alan Wynne Jones a difyr oedd gweld pwy oedd yn gwybod yr atebion i'r cwis dirybudd am gystadleuaeth Cwpan Rygbi'r Byd! Roedd Nans Morgan wedi trefnu raffl a rhwng popeth codwyd £576 at **Uned Cemotherapi Ysbyty Bron-glais**. Diolchodd y Gweinidog yn gynnes i bawb fu wrthi'rn trefnu.

**Y Chwiorydd**
Cynhaliwyd cyfarfod diolchgarwch Cymdeithas y Chwiorydd brynhawn Mercher, Hydref 2il. Wrth agor tymor y gaeaf a chroesawu'r nifer sylweddol oedd wedi dod ynghyd estynnodd y cadeirydd, Llinos Dafis, gydymdeimlad â Mrs Gwenda Edwards a'r teulu ar farwolaeth Y Parchg W J Edwards, a fu yn un o blant y Garn yn ei ieuenctid. Miss Beti Griffiths, Lledrod, oedd y wraig wâdd ac fe gafwyd ganddi wasanaeth urddasol a neges gynnes a pherthnasol. Aeth arian y casgliad a gynhaliwyd yn ystod y gwasanaeth at gymdeithas **Mind**. Yn dilyn hynny mwynhawyd te, a oedd wedi ei ddarparu gan aelodau'r pwyllgor, yn y festri.

Ar Dachwedd 6 y bydd cyfarfod nesaf Cymdeithas y Chwiorydd; Dwysli Peleg Williams fydd yno i drafod Addurniadau Nadolig. .

**Ysgoloriaeth Esquel**
Llongyfarchiadau i Meinir Olwen sydd wedi ennill Ysgoloriaeth Cymdeithas Partneriaeth Pobl Aberystwyth ac Esquel (AEPPA) i deithio i Esquel i hyrwyddo ymwybyddiaeth o'r gefeillio sydd rhwng y ddwy dref. Cynigiwyd yr ysgoloriaeth i ddathlu deng mlynedd o efeillio.



**Noson i'w chofio**
Cynhaliodd Clwb Pêl-droed Bow Street ddigwyddiad arbennig iawn ar 20 Medi, sef noson gabare ym mwyty Consti yn Aberystwyth, pryd y cafwyd adloniant o'r safon uchaf gan Rhys Meirion, Callum Duell a Steve Royle, gyda'r cyn-chwaraewr Owain Tudor Jones yn llywyddu. 'Roedd popeth wedi'i drefnu'n arbennig, dan ofal Huw Bates a chwmni adloniant Haka, a chafwyd noson i'w chofio,' meddai Wyn Lewis, cadeirydd y clwb. 'Hoffwn ddiolch i Neville Evans, Cwmni Teiars Cambrian, a chynrychiolwyr Cymdeithas Bêl-droed Cymru Dai Alun Jones, Will Lloyd a Graham Evans am eu cefnogaeth. Mae'n hyfryd nodi y byddwn yn medru cefnogi nifer o elusennau lleol o'r arian a godwyd yn yr ocsiwn, sef Gwirfoddolwyr Hosbis yn y Cartref Aberystwyth a'r Cylch, Cronfa Anna Evans ac Eisteddfod Ceredigion 2020.'

**Cydymdeimlad**
Cydymdeimlwn â Gwenda Edwards, Tregerddan a'r teulu ar farwolaeth y Parchg W. J. Edwards fu farw yn Ysbyty Bron-glais ar Fedi 30ain. Bydd teyrnged yn rhifyn nesaf y Tincer.

**Dau ymwelydd o dramor**



Yn ystod y mis cafwyd cwmni dau ymwelydd arbennig yn Neuadd Rhydypennau yn ystod y sesiwn chwaraeon arferol. Mae Alan Wells (ar y dde) yn byw yn Sydney, Awstralia, ond mae'n hanu o'r ardal hon. Roedd yn gyd-ddisgybl ysgol â'i gyfaill, Vaughan Griffiths (yn dal raced badminton yng nghanol y llun o'r grŵp). Mae mam Alan, sef Alice Wells, yn byw ym Mhenrhyn-coch. Mae Ray Lowe (ar y chwith ) yn byw yn Efrog Newydd, UDA. Ganwyd ei dad yn y Rhondda ac mae ei fam wedi bod yn byw ym Mhenrhyn-coch am dros ugain mlynedd. Mae Ray yn cryn bencampwr gyda bat tenis-fwrdd. Roedd yn hyfryd cael cwmni'r ddau.



**Te Tregerddan**
Cynhaliwyd te moethus yn Nghartref Tregerddan ym mis Medi a casglwyd dros £500 tuag at Gyfeillion y Cartref. Diolch i bawb am eu cefnogaeth. Yn y llun gwelir Cadeirydd y Cyfeillion yn cynnal ocsiwn a noddwyd gan nifer o fusnesau a chyfeillion lleol.







**Bore Coffi Macmillan**
Cynhaliwyd Bore Coffi Mwya'r Byd hynod o lwyddiannus yn Neuadd Rhydypennau ddiwedd Medi er budd elusen Macmillan, a hoffai Nia Gore a Nia Peris ddiolch o galon i bawb fu'n bresennol ac i bawb a gyfrannodd mor hael cyn, yn ystod ac wedi'r digwyddiad. Codwyd dros £2,200 i'r elusen holl bwysig hon a bydd y siec yn cael ei gyflwyno i gynrychiolydd o'r elusen yn lleol ddiwedd Hydref yn Ysbyty Bron-glais.



Dydd Sadwrn Hydref 5ed dadorchuddiwyd cofeb i Niclas y Glais yn Crugiau Dwy uwchben Pentregalar. ger Crymych, Sir Benfro gan ei or-wyres, Sian Simkins, gyda chymorth ei hwyrion Daniel a Harri Jones. A gyda chymorth grant Loteri Treftadaeth golygwyd cyfrol gan Hefin Wyn a Glen George *Nithio Neges Niclas (Y Lolfa)*, sy'n cynnwys llythyrau ac erthyglau o'i eiddo.



**Ymwelwyr o Awstralia**
Dyma nhw wedi cyrraedd o Awstralia yma i Maesceiro. Rhydian, Megan a'r plant, Aled a Bryn, sydd yn y llun, wedi dod nôl i weld teulu Rhydian – Alun, Louisa a Sion Phillips. Er gwaetha'r tywydd maent wrth eu bodd – y gwynt a'r glaw yn amharu dim ar eu siwrne i fan hyn a fan draw. Maent wedi dotio ar yr afonydd, glan y môr, y coed – yn enwedig y mwyar duon. Mae Bryn yn meddwl mai Cymru ydy'r wlad orau yn y byd! Mae yna lawer o deithio i ddod eto. Ychydig o haul fyddai'n braf!

**Gorsaf newydd**
Deallir na fydd gwasanaeth trenau rhwng Aberystwyth a Machynlleth am dros wythnos ym mis Tachwedd tra bydd gwaith yn digwydd ar gyfer gorsaf newydd Bow Street. Bydd gwasanaeth bws ar gael rhwng dydd Mawrth 12 Tachwedd a dydd Iau 21 Tachwedd. Yma gwelir y ffordd newydd at yr orsaf newydd.



**R.J.Edwards**
Adeiladau Fferm y Cwrt
Cwrt Farm Buildings
Penrhyn-coch

Contractiwr, masnachwr gwair a gwellt
Arbenigwr ar ailhadu
Cyflenwi a gwasgaru calch, slag a Fibrophos
Lori, turiwr a malwr i'w llogi
Cyflenwi cerrig mán

01970 820149
07980 687475

# Ysgol Penrhyn-coch

**Cyngor Ysgol**
Aelodau'r Cyngor Ysgol yw Owen, Osian, Betsan, Freya, Cayden, Telyn, Mya ac Iona.






**Plant Gwyrdd Ysgol Eco**
Dyma aelodau'r Plant Gwyrdd, sef Zak, Dylan, Siân, Gwen, Jac, Harrison, Twm a Seren.



**Dewiniaid Digidol**
Molly, Daisie, Liwsi, Imogen, Elis, Lois, Owen, Dylan, Gwen, Lucy a Cari yw'r Dewiniaid Digidol. Defnyddiol iawn, yn enwedig yn ystod ein wythnos beicio i'r ysgol.

**Taith Tractorau**
Diolch i Mrs. Lynwen Jenkins a Mr. Alun Hughes am drefnu Taith Tractorau lwyddiannus arall i'n hysgol. Codwyd £1,053.20! Cyfanswm campus! Diolch i bawb am eich cefnogaeth.

**Cyngerdd**
Bu disgyblion Cyfnod Allweddol 2 i Ysgol Pen-glais ar gyfer cyngerdd gan Ensemble Cymru a oedd wedi'i hariannu gan Gyngor Celfyddydau Cymru. Mwynhaodd pawb.

**Byd Y Bêl**
Diolch yn fawr i staff yr Urdd ac i Bryn o gwmni BMO Coaching am gynnal gweithgareddau hwylus i blant y Cyfnod Sylfaen. Cafodd y plant gyfle i ddatblygu sgiliau pêl-droed, rygbi a sgiliau dal a thaflu. Bore yn llawn hwyl a sbri i gyd fynd â'r thema Newydd – Byd y Bêl.

**Gleision Caerdydd**
Fel rhan o'n thema Pencampwyr, gan bwysleisio ar Gwpan Rygbi'r Byd, aeth Cyfnod Allweddol 2 am ymweliad i stadiwm Gleision Caerdydd - sef Parc yr Arfau. Yno cawsom wledd o brofiadau drwy chwarae rygbi ar y cae, taith tywys o gwmpas y stadiwm, gwers am Japan a chyfweliad gydag un o'i chwaraewyr sef Owen Lane. Cofiwch gael cip ar ein gwefan *www.penrhyncoch.ceredigion.sch.uk* am fwy o wybodaeth neu dilynwch ni ar drydar @YsgPenrhynCoch



**Ymweliad Mr. Urdd**
Ar y 23ain o Fedi cawsom ddiwrnod coch, gwyn a gwyrdd i godi arian ar gyfer yr Urdd. Cawsom ymweliad gan Mr. Urdd ei hun a wnaeth ymuno â ni i wylio gêm agoriadol Cymru yn erbyn Georgia yng Nghwpan y Byd.

**Dr. Beic**
Diolch yn fawr iawn i Sioned o SUSTRANS am gynnal gweithdy Dr.Beic yn yr ysgol.



**Cynhadledd**
Lucy ac Imogen a wnaeth gynrychioli llais y disgybl fel Llysgenhadon Gwych ar ran yr ysgol yn y gynhadledd yn Siambr y Cyngor, Aberaeron, gyda Sally Holland, Comisiynydd Plant Cymru.

## Darlith i ddathlu'r bwriad i ailagor Pantycelyn

Fel y gwyddoch mae'r gwaith o ailwampio Neuadd Pantycelyn yn ei anterth erbyn hyn.

Er mwyn cynnal y momentwm, rydym wedi trefnu darlith i'w chynnal ym mhrif neuadd yr Hen Goleg a mawr obeithiaf y byddwch yn gallu ymuno â ni ar y noson. Byddai neuadd lawn yn dangos yn glir faint y gefnogaeth sydd i'r fenter bwysig hon, nid yn unig o fewn y Brifysgol ond yn y gymuned leol ac ar draws Cymru.

Dyma fanylion y ddarlith
Nos Fercher, 6 Tachwedd, yn Neuadd yr Hen Goleg, Aberystwyth
Derbyniad am 5.30 Darlith am 6.00
**HERIWR ANHEPGOR:**
**ALWYN. D. REES**
**(1911–1974)**
**Brwydrau Iaith a Phrifysgol hanner canrif yn ôl.**
**Yr Athro M. Wynn Thomas**
Mae croeso cynnes i bawb.
Mynediad am ddim drwy gofrestru ar-lein

Yn Gymraeg:
https://tocyn.cymru/cy/event/90daf6ff-c35d-4992-a000-d85d902e2793
neu yn Saesneg
https://tocyn.cymru/en/event/90daf6ff-c35d-4992-a000-d85d902e2793

Bydd tocynnau hefyd ar gael wrth y drws.

Mawr obeithiaf y byddwch yn gallu ymuno â ni. Bydd digon o gyfle i sgwrsio a chymdeithasu ac i ddathlu'r cynnydd yn y gwaith.

Yn gywir
**GWERFYL PIERCE JONES**
Cadeirydd Bwrdd Prosiect Pantycelyn

## Ysgol Craig yr Wylfa

**Bore Coffi McMillan**
Cynhaliwyd bore coffi McMillan lwyddiannus iawn eleni eto! Codwyd tua £140 tuag at yr elusen! Roedd y cacennau i gyd yn werth eu gweld – da iawn a diolch i'r plant, rhieni a staff a fu'n coginio, y rhai a fynychodd y digwyddiad ac a gyfrannodd mewn unrhyw fodd tuag at wneud y bore yn un llwyddiannus.

**Sbri Di-ri**
Aeth plant y Cyfnod Sylfaen i Sbri Di-ri yr Urdd ym Mhenweddig. Roeddent wedi mwynhau cyd-ganu a dawnsio gyda phawb yna. Roeddent i gyd wrth eu boddau yn cwrdd â Mr Urdd a'i griw!

**Llysgenhadon Efydd**
Llongyfarchiadau i Mark a Ben sy'n mlwyddyn 6 am gael eu dewis i fod yn Lysgenhadon Efydd dros yr Ysgol. Aethant ar ddiwrnod o hyfforddiant ac fe wnaethant ddysgu llawer o gêmau a sgiliau gwahanol yna i ddod nôl i ddangos.

**Bâd Achub y Borth**
Cerddodd plant Cyfnod Allweddol Dau lawr i orsaf y Bâd Achub yn y Borth. Cafwyd croeso mawr yna, gan iddynt gael prynhawn diddorol o ddysgu am y cychod, yr offer a'r wisg. Diolch iddynt am y croeso a'r holl wybodaeth.

## Ysgol Penweddig

**Swyddogion Penweddig 2019/2020**
Pleser yw cyhoeddi ein tîm o Swyddogion ar gyfer eleni, a llongyfarchiadau mawr iddynt! Edrychwn ymlaen i gyd-weithio gyda nhw er mwyn cyfoethogi bywyd yr Ysgol i'n disgyblion ni, ac i sicrhau bod llais y disgybl yn cael ei glywed yn glir.
Prif Swyddogion: Teleri Morgan, Gwern Davies
**Dirprwyon**: Sara Griffiths, Cerys Burton
Cymreictod: Enfys Morris, Dafydd Roberts
Mentora a Chlybiau: Aled Evans, Sophie Jones, Haf Evans
**Lles**: Natasha Owen, Elliw Jobbins
Chwaraeon: Lisa Cowdy, Dion Ellis-Clark, Gwydion Howells (absennol o'r llun)
Dysgu ac Addysgu: Anna Jones, Esyllt Einion



Tylino Thai Trefechan
(Thai Massage)
Tylino Thai £25 yr awr
Tylino Olew £30 yr awr
Tylinwraig â chymhwyster
Am sesiwn, ffoniwch ni ar
07878 071367

Clwb Cymdeithasol Pêl-droed Penrhyn-coch
CINIO DYDD SUL
PRYDAU BAR
PARTÏON
BWYDLEN BWYTY
ADLONIANT
AR AGOR O 5:30 P.M.
NOSWEITHIAU IAU A GWENER
AM BRYDIAU TEULUOL

GWASANAETH GARDDIO
ROBERT GRIFFITHS
Am bob math o waith garddio ffoniwch
(01970) 820924

inc
Amrywiaeth eang o lyfrau, cardiau, cerddoriaeth ac anrhegion Cymraeg.
CROESAWIR ARCHEBION GAN UNIGOLION AC YSGOLION
13 Stryd y Bont, Aberystwyth
01970 626 200

# Ysgol Rhydypennau



**Llysgenhadon Ifanc**

Er mwyn hyrwyddo iechyd a ffitrwydd yng Ngheredigion mae Llysgenhadon Ifanc wedi eu penodi ar draws ysgolion y Sir. Yn ysgol Rhydypennau penodwyd Daniel Jones o flwyddyn 5 ac fe ail-benodwyd Jena Curran o flwyddyn 6. Y mae'r ddau wedi derbyn hyfforddiant gan drefnwyr 'Ceredigion Actif' y Sir ac erbyn hyn mae'r ddau yn trefnu sesiynau iechyd a ffitrwydd yn y clwb cyn ysgol o chwarter wedi wyth ymlaen.

**Ymweliadau**

**Ynys-hir**

Ar 16eg o Fedi, cludwyd plant blwyddyn 3 a 4 i warchodfa natur yr RSPB yn Ynys-hir. Yn ystod yr ymweliad cafodd y plant gyfle i drochi am greaduriaid yn y pyllau dŵr gan ddysgu am greaduriaid a phlanhigion yn ein amgylchedd. Diolch i Jenny Dingle am ddarparu'r gweithgareddau.

**Diwrnod Coch, Gwyn a Gwyrdd.**

Er mwyn codi arian i'r Urdd, cynhaliwyd diwrnod Coch Gwyn a Gwyrdd yn yr ysgol ar y 9ed o Hydref. I goroni'r diwrnod, daeth neb mwy na Mr Urdd ei hun i'n plith a chafodd y plant bnawn cyfan yn ei gwmni difyr.

**Mynd am dro**

Yn ddiweddar, cerddodd plant blwyddyn un draw i barc Llandre er mwyn cwblhau gwaith maes ar thema'r tymor. Yn ystod yr ymweliad, cafodd y plant gyfle i wella eu sgiliau mapio, a'u sgiliau llythrennedd tra'n mwynhau tywydd braf yr hydref.

**Gweithgareddau'n ail-gychwyn**

Mae Adran yr Urdd wedi ail ddechrau bellach. Bu plant blynyddoedd 4, 5 a 6 yn mwynhau Cwis am Gymru yn ystod y noson gyntaf dan arweiniad Mr Jones. Mi fydd y gweithgareddau difyr yn parhau tan Y Pasg.

Mae'r tîm hoci bellach wedi ail ddechrau gêmau'r tymor hefyd. Mae'r tîm yn derbyn hyfforddiant pob nos Fawrth i lawr yng Nghae Piod ac yn chwarae gêmau pob nos Wener ar faes astro'r Brifysgol.

**Sbri di-ri**

Ar y 4ydd o Hydref fe aeth plant y cyfnod sylfaen i Ysgol Pen-glais i fwynhau bore o ganu a dawnsio yng ngofal Sam Ebenezer. Digwyddiad blynyddol yw hwn sy'n cael ei drefnu gan Urdd Gobaith Cymru. Cafodd pawb amser da.

**Gorchest!**

Llongyfarchiadau mawr i Morus Raggett, Tomos Jones a Noa Elias am gael eu dewis i chwarae i dîm rygbi ysgolion Ceredigion. Mi fyddant yn chwarae yn erbyn ysgolion Caerfyrddin a rhanbarth Rhondda yn hwyrach ymlaen yn y mis. Pob hwyl i'r tri!

**Clwb Cant**

**Mis Hydref**

1af - £25 Gwynant Phillips.
2il - £15 Aled Jenkins.
3ydd-£10 Sarah Humphreys.









James Memorials

Am
GOFEBAU ARBENNIG
BEDDARGRAFFIADAU
ADNEWYDDU O SAFON
ARWYDDION AR DAI A BUSNESAU

Gofynnwch am bamffled rhad ac am ddim

James Memorials
Vicarage Crossing,
Llandre, Bow Street
Ffôn: (01970) 820 111



Morlan
Canolfan ffydd a diwylliant
Centre for faith and culture

**Darlith Flynyddol Morlan - Pantyfedwen 2019**

**6.00, nos Fercher, 20 Tachwedd**

'Milltir Sgwâr a Byd Crwn'
Darlith gan...
Yr Athro Elwen Evans Q C
Prifysgol Abertawe

Canolfan Morlan, Morfa Mawr, Aberystwyth
SY23 2HH
morlan.aber@gmail.com
Am ddim

# Ysgol Pen-llwyn







**Sbridiri**
Bore llawn dawnsio a chanu gafodd disgyblion y Cyfnod Sylfaen yng nghwmni Sam Ebenezer. Roedd pawb wrth eu bodd yn ymuno yn y caneuon a'r symudiadau. Roedd cyffro mawr pan ymunodd Mistar Urdd yn yr hwyl! Diolch i'r Urdd am drefnu digwyddiad mor arbennig unwaith eto.

**Rali Bae Ceredigion**
Aeth aelodau'r Gymdeithas Rieni ac Athrawon i helpu drefnu parcio yng Ngelli Angharad ar gyfer Rali Bae Ceredigion. Rydym yn ddiolchgar i drefnwyr yr ŵyl am roi'r cyfle i ni ac am roi rhodd i'r Ysgol er mwyn prynu offer technoleg newydd.

**Rygbi**
Mae haint rygbi wedi cyrraedd Ysgol Pen-llwyn! Mae'r plant wedi gwisgo'n goch ar gyfer pob gêm Cymru a daeth Mistar Urdd i ganu, dawnsio a dathlu gêm gyntaf Cymru yng Nghwpan Rygbi'r Byd.

**Cyngerdd Cerddoriaeth**
Cafodd disgyblion Cyfnod Allweddol 2 eu diddori gan gerddoriaeth swynol yn Ysgol Pen-glais. Mae nifer fawr o ddisgyblion yn dysgu offerynnau yn yr Ysgol neu yn allgyrsiol a mawr obeithio byddant yn ymuno mewn cyngherddau tebyg yn y dyfodol.

**Llysgenhadon Efydd**
Dewiswyd Rhydian Skipp i ymuno gyda Efanna Lewis i fod yn Llysgenhadon Efydd yr Ysgol eleni. Aethant i Ysgol Plas-crug ar gyfer diwrnod o ddeall y rôl, dysgu gêmau a gweithgareddau newydd. Aethant ati'n syth bin i gynnal sesiynau amser cinio gan ganolbwyntio ar sgiliau rhedeg i ddechrau. Pob lwc i'r ddau ohonynt yn y rôl bwysig hon.

**Cynhadledd Llais y Disgybl**
Aeth dwy o ferched blwyddyn 6 i'r Siambr ym Mhenmorfa, Aberaeron. Cymeron nhw ran mewn trafodaeth ar hawliau plant ac yn brysur baratoi gwasanaeth i rannu'r wybodaeth bwysig gyda gweddill yr Ysgol.

**Byd y Bêl**
Cawsom sbardun gwerth chweil i'n thema Byd y Bêl gyda Helen a Chloe o'r Urdd a Bryn (BMO Coaching). Er gwaetha'r tywydd mwynheuodd y plant sesiynau sgiliau pêl, rygbi a phêl droed.

**Caerdydd**
Bu Dosbarth 2 ar drip i Gaerdydd er mwyn cael diwrnod llawn rygbi gydag aelodau staff Parc yr Arfau, sef safle chwarae'r Gleision! Cafodd y plant gyfleoedd i ddatblygu eu sgiliau rygbi, dysgu am hanes y stadiwm, hanes Cwpan Byd Rygbi a chael sesiwn cwestiwn ac ateb gydag Owen Lane, un o chwaraewyr y Gleision. Cafodd y plant ddiwrnod gwerth chweil a nawr maent yn llawn bwrlwm ynglŷn â thema ein tymor, Pencampwyr!




Trydan
WILL DAVEY
Gosodiad Trydanol Ardystiedig
Sain, Gweledol & Data
CCTV
Arolygu & Phrofi
NYTHFA, PANTYCRUG, ABERYSTWYTH SY23 4EF
APPROVED CONTRACTOR
07581 173 684 / 01970 880593 info@willdavey.co.uk @trydanwilldavey

# Tasg y Tincer

Diolch i'r rhai fu'n lliwio'r marchog dewr yn ei arfwisg y mis diwethaf: Carian Evans a Iestyn Evans, Y Borth a Cari Jenkins, Penrhyn-coch. A diolch i chi, Mabli ap Llywelyn, Penrhyn-coch, Ted Elias Jones a Wil Elias Jones, Ysgol Rhydypennau, am eich lluniau arbennig o'r dolffin hefyd. Daliwch ati i anfon eich lluniau! Dy enw di, Iestyn, ddaeth o'r het y tro hwn. Llongyfarchiadau!



Iestyn

Mae mis Hydref yn fis prysur, rhwng pob dim! Fuoch chi'n dathlu Diwrnod Cenedlaethol Barddoniaeth ar ddechrau'r mis, a Diwrnod T. Llew Jones? Dwi'n hoff iawn o'i nofel *Dirgelwch yr Ogof*. Pa un yw eich hoff lyfr chi? A ydych chi'n cael gwasanaeth diolchgarwch yn eich ysgol neu yn eich pentref y mis hwn? Dyma gyfle i ddweud diolch am bopeth sydd gan bob un ohonon ni. Ond nid yw pob gwlad yn dathlu ei gŵyl ddiolchgarwch adeg yma o'r flwyddyn, cofiwch. Mae pobl Seland Newydd yn dathlu ym mis Chwefror, pobl India ym mis Ionawr ac mae pobl Nigeria yn cynnal eu gŵyl bysgod ym mis Chwefror. *Shavout* yw enw gŵyl ddiolchgarwch yr Iddewon, sy'n cael ei chynnal ym Mai neu Fehefin, pryd mae'r Iddewon yn bwyta, canu, dawnsio ac yn addurno'u tai.

Y mis hwn, lliwiwch lun y fasged o ffrwythau a llysiau, er mwyn dweud diolch am y cynhaeaf ... ac mae'r bwmpen yno'n barod ar gyfer Calan Gaeaf! Anfonwch eich gwaith at y cyfeiriad arferol, Tasg y Tincer, 3 Brynmeillion, Bow Street, Ceredigion SY24 5BP erbyn Tachwedd 1af.Ta tan toc, a mwynhewch gwylio'r rygbi o Japan, wrth gwrs, a phob lwc i Gymru! Arigatou a Konichiwa!



**Enw**

**Cyfeiriad**

**Ysgol**

**Rhif ffôn** **Oed**

CYMRAEG
Ariennir yn Rhannol gan Lywodraeth Cymru

GWASANAETH GARDDIO MYNACH
**Torri Porfa, Sietynau, Tirlinio a Garddio**
Gwasanaeth cyfeillgar a phrisiau rhesymol
**Ffoniwch Meirion:**
07792 457816
01974 261758
e-bost: mynachhandyman@yahoo.com

Eirian Reynolds, Tech. S.P.
GWASANAETH IECHYD A DIOGELWCH
Arolygon Diogelwch
Asesiadau Peryglon
Archwiliadau Damweiniau
Hyfforddiant
01970 820124
07709 505741

SIOP A SWYDDFA BOST PENRHYN-COCH
Perchennog: Lawrence Kelly
AR AGOR
Llun – Sadwrn
7 y bore – 9 yr hwyr
Sul
7 y bore – 7 yr hwyr
Papurau dyddiol a'r Sul, llyfrgell fideo, cardiau cyfarch
siop drwyddiedig
01970 828312

JONATHAN LEWIS
Saer Coed / Adeiladydd
01970 880 652
07773 442 260
BRONLLYS, CAPEL BANGOR
ABERYSTWYTH

ISSN 0963-925X
9 770963 925009

*Rhif 422 | Hydref 2019*